

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 324 - Beirniadaeth Barddoniaeth Blwyddyn 5 & 6

#### Beirniad: Gwenan Prysor

Cystadleuaeth ddiddorol, gydag 118 o gynigion wedi doddi law. Tair prif thema oedd i'r cerddi. Ysgrifennodd ambell un am hunllefau llythrennol gyda bwystfilod ac anghenfilod oedd wedi ceisio eu dwyn yn y nos cyn iddynt ddeffro'n sydyn i'r larwm neu lais mam. Roedd nifer wedi sôn am y bethau hunllefus i bobl ifanc (er enghraifft dim wi-fi neu golli gem bêl-droed), ond wedi adlewyrchu, yn sylweddoli fod pethau sy'n digwydd yn y byd sydd yn creu hunllefau byw go iawn, megis plant y byw drwy'r rhyfel yn Wcraïn. Aeth eraill ar drywydd cynhesu byd-eang a'i effaith hunllefus ar y byd.

Cefais bleser yn eu darllen i gyd, ond y tair cerdd sydd wedi dod i'r brig yn fy marn i yw:

Yn drydydd mae Cerys Millar sydd yn defnyddio iaith goeth i ddisgrifio'r disgyn didrugaredd sydd yn digwydd mewn hunllef

Yn yr ail safle, mae Arabella Roberts sydd yn disgrifio'r hunllef o dorri coes yn chwarae peldroed a cholli dyfodol gyrfa

Ond yr un sydd yn mynd a hi oherwydd ei symlrwydd yw Lois Fflur Ellis. Mae'n llwyddo i wrthgyferbynnu beth sydd yn hunllef go iawn – sef rhyfel, llifogydd a cholli cartref, yn hytrach na thwba twym, dillad drud a'r i-phone diweddaraf.

Da iawn bawb, a diolch i chi i gyd am roi ymgais arni.

1af – Lois Fflur Ellis

2il – Arabella Roberts

3ydd – Cerys Millar